

**Hawliau Plant**  
Cymru

**Children's Rights**  
Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2022–23

Tachwedd 2023

## **RHAGAIR**

Fel Llywodraeth, rydym yn croesawu adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2022/23 yn fawr iawn.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac yn adlewyrchu blwyddyn gyntaf Rocio Cifuentes yn rôl y Comisiynydd Plant.

Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'r cyfnod cychwynnol hwn i ymgysylltu â llawer o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Cymru, gan alluogi plant a phobl ifanc i leisio eu barn a chodi materion sy'n effeithio arnynt.

Yn ei hadroddiad, mae'r Comisiynydd yn amlygu'r effaith y mae'r argyfwng costau byw a thlodi plant wedi'i chael, ac yn parhau i'w chael, ar fywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu a'n pwerau i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y materion hyn, wrth i ni barhau i geisio gwella canlyniadau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Er gwaetha'r pwysau eithriadol ar ein cyllideb, bydd trechu tlodi ac anghydraddoldeb yn sbardunau canolog o hyd wrth inni ddatblygu ein polisïau a'n rhaglenni ym mhob rhan o'r llywodraeth, ac yn gyfrifoldeb i bob un o Weinidogion Cymru.

Mae ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn parhau ac rydym yn falch o'n traddodiad yma yng Nghymru o roi hawliau plant wrth wraidd ein penderfyniadau. CCUHP yw sylfaen yr holl benderfyniadau polisi a wneir gennym sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc o hyd.

Mae rôl annibynnol y Comisiynydd yn hollbwysig er mwyn dwyn y Llywodraeth i gyfrif ynghylch y modd rydym yn cefnogi hawliau plant yng Nghymru, a byddwn yn parhau i weithio gyda hi er budd holl blant a phobl ifanc Cymru.

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS  
Prif Weinidog Cymru

Jane Hutt AS,  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
a'r Prif Chwip

## CYNNWYS

<b>CYFLWYNIAD .....</b>	<b>4</b>
1. Tlodi plant .....	5
2. Argyfwng yr hinsawdd .....	6
3. Iechyd Meddwl a Llesiant – Strategaeth Iechyd Meddwl .....	6
4. Iechyd Meddwl a Llesiant – Adroddiad Meddyliau Iau o Bwys .....	6
5. Iechyd Meddwl a Llesiant – Dull Ysgol Gyfan.....	7
6. Rhaglen Plentyn Iach Cymru – Data.....	7
7. Rhaglen Plentyn Iach Cymru – Actif Bob Dydd .....	7
8. Fêpio/E-sigarets – Canllawiau .....	8
9. Fêpio/E-sigarets – Iechyd Cyhoeddus .....	8
10. Gwasanaethau hunaniaeth rhywedd.....	9
11. Gofal cymdeithasol a diwygio radical .....	10
12. Diogelu plant – Adolygiad Diogelu Sengl Unedig.....	10
13. Diogelu plant – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol .....	10
14. Tai diogel i blant agored i niwed – Gweithredu heb Gofrestriad.....	11
15. Tai diogel i blant agored i niwed – Llety .....	11
16. Chwilio plant a phobl ifanc yn noeth .....	12
17. Hiliaeth mewn ysgolion – Canllawiau gwrthfwlio.....	12
18. Hiliaeth mewn ysgolion – Data .....	13
19. Hiliaeth mewn Ysgolion – Adroddiad y Comisiynydd Plant .....	13
20. Plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg – Fforwm Cymunedol.....	14
21. Plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg – Canllawiau ar Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb .....	14
22. Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol – Dysgu Proffesiynol ...	15
23. Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol – Darpariaeth.....	15
24. Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol – Hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgolion.....	16
25. Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol – Rhaglen Gwella Nirowahaniaeth.....	17
26. Gwaharddiadau o'r Ysgol – Canllawiau Statudol .....	17
27. Gwaharddiadau o'r Ysgol – Adolygu canllawiau .....	18
28. Addysgu Gartref .....	18
29. Gwasanaethau ieuentid .....	18
30. Addysg mewn Lleoliadau Gofal Iechyd .....	19

## CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon ar gyfer 2022/23 ar 6 Hydref 2023. Mae'r adroddiad ar gael [yma](#).

Mae'r Comisiynydd wedi gwneud 30 o argymhellion mewn perthynas â 17 o feysydd polisi Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn ymwneud â'r canlynol:

- Tlodi Plant
- Newid yn yr Hinsawdd
- Iechyd
- Diwygio gofal cymdeithasol
- Addysg
- Cydraddoldeb
- Gwasanaethau ieuencid

Mae adroddiad y Comisiynydd yn tynnu sylw at ystod y gwaith rydym ni yn Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc. Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r cymorth a roddwn yn ddyddiol yn cynnwys datblygiad yn y blynyddoedd cynnar, drwy ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac ar gyfer eu taith addysgol a thu hwnt.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud yn nhymor y Senedd hon. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant yn rhoi cyngor ar sut y gallwn fwrw ymlaen â'r ymrwymadau sydd yn y Rhaglen Lywodraethu neu gryfhau ein rhaglenni mawr eraill. Rydym yn croesawu'r cyngor hwnnw, y mae llawer ohono'n cyd-fynd â'n hymagwedd a'n bwriadau presennol.

Mae rhai o'r argymhellion yn fwy cymhleth - lle rydym yn cytuno â rhywfaint, ond nid y cyfan a argymhellwyd; yn methu â'u symud ymlaen yn y ffordd a gynigir; neu angen mwy o amser i'w hystyried yn llawn.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Comisiynydd i fwrw ymlaen â'n huchelgeisiau ar gyfer plant a phobl ifanc ar yn ystod gweddill tymor y Senedd hon.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru.

## Safon Byw sy'n Ddigonol

### 1. Tlodi plant

Rhaid i Lywodraeth Cymru greu cynllun gweithredu ar dlodi plant, ochr yn ochr â fframwaith monitro clir â thargedau amser-benodol, mesuradwy, a threfniadau atebolrwydd cadarn, fel bod modd cael mewnbwn sensitif gan blant a phobl ifanc. Rhaid cyhoeddi hyn yn nhymor Senedd 2023/24.

Ym mis Medi 2022, nododd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn ei sylwadau ar 'Beth sy'n creu strategaeth wrthdlodi effeithiol' fod strategaeth wrthdlodi effeithiol yn ddyfais i sicrhau bod pŵer yn cael ei arfer ar bob lefel, gan geisio cyflawni set gyffredin o nodau. Mae ein Strategaeth Tlodi Plant newydd yn cael ei pharatoi ar gyfer ei chyhoeddi.

Bydd y strategaeth newydd yn nodi amcanion, blaenoriaethau ac ymrwymïadau lefel uchel i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Y Rhaglen Lywodraethu, yr un bresennol a'r rhai fydd yn ei holynu, fydd yn pennu sut y bydd y llywodraeth yn gweithio i gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau hyn.

Mae'r strategaeth hefyd yn rhoi'r arweinyddiaeth i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ledled Cymru i'w galluogi i gydweithio'n well wrth gyflawni ein canlyniadau o ran trechu tlodi.

Nid cynllun gweithredu yw'r cyfrwng priodol i gynllunio newid hirdymor. Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau gweithredu sy'n cyffwrdd â meysydd y Strategaeth Tlodi Plant a fydd yn cofnodi ac yn mesur cynnydd o dan weithgarwch perthnasol y Rhaglen Lywodraethu. Bydd y strategaeth newydd yn cefnogi camau blaenoriaethu a chydweithio, gan annog partneriaid i weithio mewn ffyrdd newydd neu wahanol er mwyn cael effaith a byddwn yn ystyried ffyrdd tryloyw o fesur yr effaith honno.

Ni allwn orfodi llywodraethau yn y dyfodol i ymrwymo i wario yn erbyn cyllidebau sydd heb gael eu pennu eto. Fodd bynnag, mae'r ymrwymiad i sicrhau bod trechu tlodi ac anghydraddoldeb yn sbardunau canolog ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu yn un cynaliadwy.

Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i ganfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru i fonitro ac adrodd ar effaith y strategaeth hon yn y dyfodol. Byddwn yn datblygu fframwaith monitro clir i ddangos atebolrwydd tryloyw wrth inni adrodd ar ein cynnydd tuag at drechu tlodi. Byddwn hefyd yn parhau i baratoi adroddiad llawn ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth Tlodi Plant bob tair blynedd fel sy'n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd pobl â phrofiad uniongyrchol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn dweud wrthym a ydym yn gwneud cynnydd ai peidio.

Nodwn fod y Comisiynydd wedi cynnwys rhai blaenoriaethau penodol i weithredu ar dlodi plant yn yr adroddiad. Caiff y rhain eu hystyried fel rhan o waith trawslywodraethol ehangach.

## 2. Argyfwng yr hinsawdd

Er mwyn rhoi sylw i dlodi plant ac argyfwng yr hinsawdd, dylai'r cynllun gweithredu ar dlodi plant gynnwys ymrwymiad i beilot trafniadaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn y tymor Senedd hwn.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ariannu cynllun FyNgherdynTeithio, sy'n cynnig traean oddi ar bris tocynnau bws i bobl ifanc. Mae ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu hefyd yn nodi sut y byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y cynllun hwnnw.

Mae gwaith manwl wedi cael ei wneud i ystyried ystod o opsiynau er mwyn darparu system decach yng Nghymru o ran prisiau tocynnau bws.

Yn anffodus, ni allwn fwrw ymlaen â hyn ar hyn o bryd, ond rydym yn awyddus i wneud hynny pan fydd darlun cyffredinol cyllid cyhoeddus yn gwella.

## Anabledd, Iechyd Sylfaenol a Lles

### 3. Iechyd Meddwl a Llesiant – Strategaeth Iechyd Meddwl

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu'n glir ac yn derbyn sylw yn eu Strategaeth newydd Iechyd Meddwl, a bod argymhellion o adroddiad y Senedd Ieuenctid, Meddyliau Iau o Bwys, yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth hon.

Mae anghenion a barn plant a phobl ifanc Cymru yn bwysig i'r Llywodraeth hon. Rydym yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhan o'r strategaeth iechyd meddwl olynol.

Wrth inni ddatblygu'r strategaeth, rydym wedi ymgysylltu â phobl ifanc i sicrhau ei bod yn adlewyrchu eu hanghenion a byddwn yn gwneud hynny eto. Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi cyfarfod â'r Senedd Ieuenctid i drafod adroddiad Meddyliau Iau o Bwys ac mae rhagor o sesiynau wedi'u cynllunio. Bydd yr adroddiad hwn, ynghyd â gwaith ymgysylltu â grwpiau eraill, yn llywio'r strategaeth derfynol.

### 4. Iechyd Meddwl a Llesiant – Adroddiad Meddyliau Iau o Bwys

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariad yn ystod 2023/4 ar eu cynnydd yn erbyn argymhellion y Senedd Ieuenctid yn eu hadroddiad Meddyliau Iau o Bwys.

Ym mis Chwefror 2023, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at Bwyllgor y Senedd Ieuenctid i ymateb i adroddiad Meddyliau Iau o Bwys. Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog â'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf i drafod cysoni themâu allweddol argymhellion y Pwyllgor â'r rhaglen waith iechyd meddwl sy'n datblygu. Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei ystyried gan swyddogion er mwyn llywio'r strategaeth iechyd meddwl newydd.

Cynhaliwyd sesiwn arall ym mis Hydref a roddodd gyfle i aelodau o'r Pwyllgor lywio'r strategaeth ymhellach.

Pan fydd wedi ei chyhoeddi, caiff diweddariadau ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu y strategaeth newydd eu cyhoeddi yn rheolaidd.

## 5. Iechyd Meddwl a Llesiant – Dull Ysgol Gyfan

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gweithrediad y Fframwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn cael ei fonitro'n fanwl i sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau a fwriadwyd, yn rhoi sylw i anghenion y rhai â nodweddion gwarchoddedig, ac yn ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall yr effaith y mae'r Fframwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn ei chael ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc ers iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021.

Yn dilyn argymhellion a wnaed yn ein papur ymchwil 'Datblygu asesiad o theori newid a'r gallu i werthuso yn achos y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol' (Rhagfyr 2021), rydym bob amser yn adolygu'r ffordd y caiff y Fframwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ei weithredu a'i gyflawni drwy ddefnyddio dull fesul cam, dros gyfnod estynedig o amser.

## 6. Rhaglen Plentyn Iach Cymru – Data

Rhaid i Lywodraeth Cymru, ar y cyd â GIG Cymru, sicrhau bod byrddau iechyd lleol mewn sefyllfa i fewnbynnu data cywir ac amserlen ar gyfer rhaglen Plentyn Iach Cymru, er mwyn dangos eu bod yn cadw at y trefniadau sgrinio, imiwneiddio a chyfarfodydd monitro y gall teuluoedd eu disgwyl.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd Cymru lunio adroddiad chwarterol ar gynnydd wrth weithredu Rhaglen Plentyn Iach Cymru ac mae'n cynnig yr ystod lawn o gysylltiadau a nodir yn y rhaglen.

Mae cyfraddau cwblhau wedi gwella'n gyson i'w lefelau cyn y pandemig, ac roedd 93% o blant cymwys wedi cael eu cyswllt disgwylidig pan oeddent rhwng 10 a 14 diwrnod oed, yn seiliedig ar y data chwarterol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth 2023.

Mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall y data ar gyfer cysylltiadau lle nad yw'r cyfraddau cwblhau wedi dychwelyd i'r un lefelau uchel a welwyd cyn y pandemig. Rydym yn rhannu'r uchelgais i ddigideiddio'r ffurflen casglu data ar gyfer Rhaglen Plentyn Iach Cymru.

## 7. Rhaglen Plentyn Iach Cymru – Actif Bob Dydd

Dylai'r Rhaglen Actif Bob Dydd gychwyn yn ddi-oed.

Nid rhaglen benodol yw Actif Bob Dydd ond sut rydym yn rhagweld y caiff yr holl gyfleoedd i gynnal gweithgarwch corfforol drwy gydol y diwrnod ysgol eu crisialu, gan ddarparu pecyn o gymorth i alluogi ysgolion i ddatblygu cynllun dynodedig ar gyfer eu hysgol yn seiliedig ar fewnwelediad ac adborth disgyblion.

Mae Pwysau Iach: Cymru Iach Cynllun Cyflawni 2022-24 yn rhoi pwyslais ar alluogi plant i gael mynediad i leoliadau addysg lle mae gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl yn flaenoriaeth o hyd.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu Cynnig Actif Bob Dydd ar gyfer ysgolion a fydd yn creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fod yn actif o fewn paramedrau'r diwrnod ysgol.

Partneriaeth amlasiantaethol rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am Actif Bob Dydd. Mae'r cynigion ar gyfer Actif Bob Dydd yn nodi dull ysgol gyfan o ymdrin â gweithgarwch corfforol yng Nghymru, sy'n ceisio gwella cyfleoedd i gyflawni gweithgarwch corfforol yn ystod, cyn ac ar ôl y diwrnod ysgol.

Rydym ar y cam datblygu ar hyn o bryd, ac rydym yn gweithio i gysoni ein dull â'r fersiwn newydd o Rwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd Cymru; a llywio'r broses brofi ar gyfer cam mabwysiadwyr cynnar, drwy dreialu'r dull, gan sicrhau y caiff hyn ei ategu gan safbwynt anghydraddoldebau iechyd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mapio rhaglenni, mentrau a phrosiectau presennol ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol sy'n rhoi cyfleoedd i gyflawni gweithgarwch corfforol yn ystod, cyn ac ar ôl y diwrnod ysgol. Mae hefyd wedi goruchwylio gwaith ansoddol i lywio dealltwriaeth o'r rhwystrau, yr hwyluswyr a'r datrysiadau posibl a all effeithio ar y gwaith o weithredu a chynnal gweithgareddau mewn ysgolion i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

## 8. Fêpio/E-sigarets – Canllawiau

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir i ysgolion ar gyfer rheoleiddio fêpio.

Ar 20 Medi 2023, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y ddogfen 'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fêpio i Ddysgwyr Oedran Uwchradd yng Nghymru'. Lluniwyd y canllawiau er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau addysg eraill i ymateb i'r defnydd o fêps. Y nod yw helpu dysgwyr i ddeall effaith fêpio ar eu hiechyd a'u llesiant, rhoi gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i athrawon a rhoi gwybodaeth am ffyrdd o gynnwys addysgu a dysgu am fêpio yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ffyrdd y gall ysgolion ymateb i'r defnydd o fêps yn eu lleoliad a sut i gefnogi pobl ifanc a all fod yn ddibynnol ar nicotin ac yn awyddus i roi'r gorau iddi.

## 9. Fêpio/E-sigarets – Iechyd Cyhoeddus

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymgyrch iechyd cyhoeddus plant a phobl ifanc, gan amlygu peryglon hysbys a phosibl fêpio.



Mae'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n rhoi cynnig ar ddyfeisiau fêpio ac yn eu defnyddio yn rheolaidd yn peri gofid mawr. Dangosodd Arolwg Iechyd a Llesiant y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn 2021/22 fod 20% o bobl ifanc o Flwyddyn 7 hyd at Flwyddyn 11 yn dweud eu bod wedi rhoi cynnig ar fêpio a bod 5% o ddisgyblion uwchradd yng Nghymru yn fêpio o leiaf unwaith yr wythnos. Canfu arolwg ciplun diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7 a 10 mewn sampl fach o ysgolion uwchradd yng Nghymru fod tua naw y cant o ddisgyblion blwyddyn 10 yn defnyddio fêpiau bob dydd. Mae'n anghyfreithlon gwerthu fêpiau sy'n cynnwys nicotin i unrhyw un o dan 18 oed, ond gall pecynnau llachar a lliwgar a blasau rhai o'r cynhyrchion hyn eu gwneud yn ddeniadol i bobl ifanc.

Er bod canllawiau ar fêpio ar gael yn barod i ysgolion sy'n ceisio tynnu sylw pobl ifanc at risgiau fêpio i'w hiechyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid i ddeall pa wybodaeth, deunyddiau neu adnoddau eraill sydd eu hangen er mwyn rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen ar bobl ifanc i'w helpu i ddeall effeithiau fêpio a chadw'n iach.

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraethau eraill y DU ar y ffyrdd eraill o atal plant a phobl ifanc rhag defnyddio fêps, gan gynnwys atebion deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraethau'r DU i gydweithio ar ystod o opsiynau i fynd i'r afael ag effeithiau fêps untro tafladwy, hyd at a chan gynnwys gwaharddiad, oherwydd effaith sylweddol y cynhyrchion hyn ar yr amgylchedd a'u cysylltiad â fêpio ymhlith pobl ifanc.

## 10. Gwasanaethau hunaniaeth rhywedd

Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu gwaith yr ymrwymwyd iddo yn y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ ar archwilio Gwasanaeth Rhywedd Cymreig i blant a phobl ifanc, yn lle dibynnu ar gomisiynu gwasanaethau o'r GIG yn Lloegr. Dylid sefydlu gwasanaeth hunaniaeth rhywedd newydd i Gymru.

Rydym yn parhau i weithio tuag at ein hymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu LHDTTC+, a bydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth ystyried opsiynau i ddatblygu gwasanaeth yng Nghymru.

Mae'r cam gweithredu yn y cynllun LHDTTC+ yn gam gweithredu tymor hir ac yn ymrwymiad i adolygu'r llwybr. Gwneir hyn er mwyn galluogi GIG Cymru i fod yn rhan o'r systemau llywodraethu a sefydlwyd gan y GIG yn Lloegr a'r Adolygiad Cass annibynnol er mwyn llywio ein dull gweithredu. Nod Adolygiad Cass yw sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n archwilio eu rhywedd neu sy'n profi dysfforia rhywedd, ac y mae angen iddynt gael cymorth gan y GIG, yn cael safon uchel o ofal sy'n diwallu eu hanghenion.

Drwy'r trefniadau hyn, mae Cymru yn rhan o isadeiledd a rhaglen ymchwil hanfodol a fydd yn cyfrannu at y sail dystiolaeth ryngwladol, a gefnogir gan y fframwaith llywodraethu helaeth y mae'r GIG yn Lloegr wedi'i sefydlu ac a ddefnyddir gennym i gomisiynu ein holl wasanaethau dysfforia rhywedd.

Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau diogelwch ac ansawdd gwasanaethau er mwyn diogelu ein pobl ifanc yng Nghymru.

## Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

### 11. Gofal cymdeithasol a diwygio radical

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi map manwl o'r holl gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â Diwygio Rhaglen Gofal Cymdeithasol Plant yn Radical, gan gynnwys symud ymlaen gyda'r camau a gymerwyd yng nghyswllt amddiffyn a diogelu plant. Dylai hyn gael ei seilio ar derfynau amser a dangosyddion deilliannau. Rhaid cael adroddiad blynyddol ar hyn i sicrhau bod modd i blant ac oedolion alw'r Llywodraeth i gyfrif o ran cynnydd tuag at eu gweledigaeth ar gyfer diwygio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi map trywydd o'r camau gweithredu a'r terfynau amser ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a gaiff ei ddiweddarau i gynnwys camau gweithredu allweddol sy'n cael eu cymryd ym maes amddiffyn a diogelu plant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwletin cyfathrebu cyntaf ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid yn ddiweddar, sy'n amlinellu'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y camau gweithredu yn y map trywydd. Caiff y bwletinau eu cyhoeddi bob chwe mis a'u cyhoeddi ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru.

### 12. Diogelu plant – Adolygiad Diogelu Sengl Unedig

Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau sut bydd y cynigion ar gyfer adolygiad Diogelu Sengl Unedig yn rhoi sicrwydd digonol y bydd y dysgu sy'n deillio o adolygiadau ymarfer plant yn cael ei weithredu a'i fonitro.

Dechreuodd y broses o ddatblygu'r Adolygiad Diogelu Sengl Unedig ym mis Rhagfyr 2019. Mae wedi cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, ymarferwyr diogelu, partneriaid o'r trydydd sector a'r byd academiaidd er mwyn sicrhau ein bod yn creu proses i ddysgu o drasiedïau a fydd yn helpu i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol.

Ei holl ethos yw sicrhau bod y gwersi sy'n dod i'r amlwg yn cael eu dysgu a bod y teulu a'r anwyliaid y mae'r drasiedi wedi effeithio arnynt yn ganolog i'r broses a bod eu safbwyntiau yn cael eu clywed.

Pan fydd wedi ei roi ar waith, byddwn yn gwybod am y tro cyntaf faint o adolygiadau sydd wedi cael eu cynnal ac sy'n cael eu cynnal, a pha argymhellion a gwersi i'w dysgu sydd wedi deillio ohonynt ledled Cymru. Cyn hyn, roedd yr wybodaeth hon i gyd yn cael ei dal yn lleol ac nid oedd gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu mor eang â phosibl. Bydd Storfa Ddiogelu Cymru yn gallu defnyddio dysgu peirianyddol, gwyddor cymdeithasol a chyfrifiadureg i ganfod ffyrdd newydd o ddysgu gwersi o adolygiadau.

### 13. Diogelu plant – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol a adnewyddwyd ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol yn ymateb yn effeithiol i

argymhellion ymchwiliad IICSA ac yn ymgorffori barn plant a phobl ifanc mewn modd sensitif.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol a adnewyddwyd ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol ymgorffori argymhellion perthnasol IICSA a thystiolaeth debyg, gan gynnwys Adroddiad Etifeddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol.

Caiff y Cynllun ei lywio gan ein gwaith ymgysylltu parhaus â'r Comisiynydd Plant a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau mesurau amddiffyn cadarn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn ffordd sensitif yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol a adnewyddwyd, fel y gall eu safbwyntiau gael eu cynnwys unwaith eto. Mae bygythiadau i blant a phobl ifanc yn newid yn gyflym, yn enwedig yn yr oes ddigidol, felly plant a phobl ifanc eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i esbonio inni o ble y daw'r risgiau hynny, ac i ble y byddent yn mynd i gael help, cyngor a chefnogaeth. Bydd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol nesaf yn ceisio sicrhau bod gwybodaeth i blant a phobl ifanc yn cael ei llywio gan blant a phobl ifanc, a bod y gwasanaethau a ddefnyddiant yn cael eu llunio mewn ffordd sy'n ystyried eu safbwyntiau.

#### 14. Tai diogel i blant agored i niwed – Gweithredu heb Gofrestriad

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg am OWR o'r llif gwaith, ynghyd â'r data sy'n dod i'r amlwg o waith AGC ar y pwnc yma, a chynhyrchu cynllun gweithredu ar frys i ymateb i'r anghenion a nodwyd yn ystod 2023/24.

O dan ein Bwrdd Rhaglen Dileu Elw o Ofal, rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys awdurdodau lleol i ystyried y broblem o wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestrriad. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod y dewis o leoliadau cofrestredig a sefydlogrwydd y lleoliadau hynny yn diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol iddynt.

Mae'r grŵp yn cynnal adolygiad o wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestrriad er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r problemau, yr heriau, y dulliau effeithiol a'r datrysiadau posibl yn ogystal â'r effeithiau cysylltiedig ar blant.

Caiff y canlyniadau a'r gwersi i'w dysgu o'r adolygiad eu rhannu â Bwrdd y Rhaglen yn ddiweddarach eleni ac, ochr yn ochr ag adborth a data gan Arolygiaeth Gofal Cymru, bydd yn ystyried pa gamau gweithredu y mae angen eu cymryd.

#### 15. Tai diogel i blant agored i niwed – Llety

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i asesu cynnydd y llety a gynlluniwyd sy'n cael ei ddatblygu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'i gomisiynu gan LIC, a cheisio rhoi sylw i rwystrau sy'n atal y gwaith yma rhag cael ei gwblhau.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos â phosibl i'w cartrefi ac yng Nghymru lle bo hynny'n ymarferol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru fframwaith monitro ar waith ym mis Medi 2023 sy'n amlinellu'r trefniadau adrodd ar gyfer yr holl waith llety rhanbarthol a gyflawnir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, boed hwnnw yn weithredol neu'n cael ei ddatblygu ac ni waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu. Paratowyd yr adroddiad chwarterol cyntaf ym mis Hydref 2023.

Yn ogystal, i ategu'r gwaith monitro, rydym yn datblygu Cymuned Ymarfer ar gyfer llety rhanbarthol i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Bydd hyn yn dod â'r swyddogion arweiniol ym mhob rhanbarth ynghyd i rannu arferion da, cymharu gwersi a ddysgwyd a phrofiadau a phrofi ffyrdd o ddatblygu datrysiadau sy'n diwallu anghenion lleol.

## **Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais**

### **16. Chwilio plant a phobl ifanc yn noeth**

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r canllawiau "Ymyriadau diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau", i sicrhau bod canllawiau digonol, wedi'u diweddarau, i ysgolion a chyrff llywodraethu yng Nghymru, er mwyn deall a chyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol pan fydd bwriad i chwilio plant yn noeth, neu pan fydd hynny wedi digwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau'r defnydd o arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol yn hyrwyddo mesurau a fydd yn arwain at leihad yn y defnydd o arferion cyfyngol. Bydd swyddogion addysg yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i roi'r fframwaith hwn ar waith yn llwyddiannus mewn lleoliadau addysg, a fydd yn cynnwys adolygu 'Ymyriadau diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau'.

## **Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol**

### **17. Hiliaeth mewn ysgolion – Canllawiau gwrthfwlio**

Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni eu hymrwymiad yn ARWAP i gryfhau'r canllawiau gwrthfwlio presennol i ysgolion (Hawliau, Parch, Cydraddoldeb 2019) er mwyn cydnabod anghenion penodol dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae canllawiau gwrthfwlio statudol Llywodraeth Cymru, sef 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019) yn cael eu diweddarau yn ystod y flwyddyn academaidd hon, yn benodol i gryfhau canllawiau mewn perthynas â phob math o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn.

Caiff y diweddariad hwn ei lywio gan brosiectau cyfranogol diweddar â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys tystiolaeth a fydd yn dod i law gan swyddfa'r Comisiynydd Plant ynghylch profiadau pobl ifanc o hiliaeth mewn ysgolion uwchradd.

## 18. Hiliaeth mewn ysgolion – Data

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau angenrheidiol yn ystod 2023/24 i sefydlu 'system Cymru gyfan o adrodd a chasglu data a fydd yn casglu data yn benodol mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ar sail nodweddion gwarchoddedig', fel y nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod trefniadau i adrodd ar achosion o fwlio ac aflonyddu a chasglu data amdanynt yn anghyson yng Nghymru. Er y gall Llywodraeth Cymru roi cyngor ar sut y gellir casglu data yn lleol, a sut y gall data gael eu defnyddio'n effeithiol ar lefel leol, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau cyfreithiol ar hyn o bryd i gasglu'r data hyn ar lefel genedlaethol. Er mwyn gwneud hynny, byddai angen newid y rheoliadau statudol presennol. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol ac mae'n debygol y bydd angen adnoddau y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd nesaf.

Tra bydd gwaith i gyflawni'r cam gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu, ac er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau addysg i gasglu a defnyddio data yn effeithiol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall canllawiau gwrthfwlio statudol ar eu newydd wedd adlewyrchu arferion effeithiol i ddefnyddio'r data er mwyn atal bwlio, a gwerthuso a gwella ymatebion i ddigwyddiadau.

## 19. Hiliaeth mewn Ysgolion – Adroddiad y Comisiynydd Plant

Er mwyn gwella profiadau dysgwyr Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus ac ymateb yn ffurfiol i adroddiad thematig y Comisiynydd sydd ar ddod ynghylch hiliaeth mewn ysgolion, gan gynnwys argymhellion ar gyfer hyfforddi athrawon ynghylch hiliaeth.

Lansiodd Llywodraeth Cymru Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL) yn ffurfiol yn 2022 er mwyn helpu i gyflawni argymhellion Adroddiad Cynefin 2021 a llinyn addysg Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae darpariaeth DARPL wedi bod ar gael i ysgolion dros y 12 mis diwethaf a chafodd ei hymestyn i ymarferwyr yn y sector gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar a'r sector addysg bellach yn gynharach eleni.

Hyd at fis Medi 2023, roedd 20,000 o weithwyr addysg proffesiynol wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â DARPL drwy ddigwyddiadau wyneb yn wyneb neu gonsortia rhanbarthol, ymgynghoriadau a chanllawiau.

Mae gwaith i gasglu amrywiaeth o wybodaeth am ymgysylltu ac effaith mewn perthynas â DARPL yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae Meini Prawf Achredu Rhaglenni AGA wedi cael eu diweddarau ac maent yn cynnwys gofynion penodol ynghylch paratoi athrawon dan hyfforddiant i ddeall a defnyddio dulliau addysgu a dysgu gwrth-hiliol yn yr ystafell ddosbarth.

## **20. Plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg – Fforwm Cymunedol**

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm cymunedol neu rywbeth tebyg i hwyluso deialog parhaus gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae'r Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ymgysylltu'n rheolaidd â chymunedau ac yn ystyried eu hanghenion wrth ddatblygu polisiau.

Rydym hefyd yn dadlau y dylai eu hanghenion gael eu hystyried gan Lywodraeth y DU yn achos materion sydd heb eu datganoli.

Cyfarfu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip â theuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym mis Medi a thrafododd gynrychiolaeth mewn cyfarfodydd ar faterion sy'n effeithio ar eu cymunedau.

Cytunwyd ar y canlynol gyda'r teuluoedd:

- Byddem yn ystyried sut i ddatblygu fforymau priodol ar gyfer teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr i'w galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol a chyfrannu at waith datblygu polisi.
- Byddai gwaith yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus i ymgysylltu â theuluoedd a sicrhau bod teuluoedd a chymunedau yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd sy'n effeithio arnynt.

## **21. Plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg – Canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau annibynnol ynghylch cyflwyno RSE, gan gynnwys astudiaethau achos i helpu ysgolion i gefnogi anghenion pob dysgwr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysg i gefnogi dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y canllawiau hyn yn cynnwys enghreifftiau o ymarfer effeithiol o bob cwr o Gymru ac maent yn seiliedig ar brofiadau plant a phobl ifanc. Byddant hefyd yn cynnwys adran ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Ar wahân i hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu gweithgor er mwyn datblygu a chydunio adnodd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i'w ddefnyddio yn genedlaethol a fydd yn darparu cymorth ymarferol ac astudiaethau achos y gall ysgolion eu defnyddio wrth iddynt gynllunio cwricwlwm cynhwysol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a fydd yn cefnogi dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

## 22. Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol – Dysgu Proffesiynol

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dysgu proffesiynol am ADY i athrawon, ac ystyried gwneud lleoliad mewn darpariaeth ADY arbenigol (gan gynnwys unedau STF mewn ysgolion prif ffrwd) yn rhan orfodol o hyfforddiant pob athro (ITE).

Mae datblygu gwaith addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel drwy warantu cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth i bob aelod o staff drwy gydol ei yrfa yn un o'r pum amcan galluogi yn 'Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb'.

Fel rhan o'r ymrwymiad ehangach i sicrhau y gall pob ymarferydd gael cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson o ansawdd uchel drwy gydol ei yrfa, byddwn yn parhau i adolygu dysgu proffesiynol ar ADY wrth i'r diwygiadau ADY fynd rhagddynt.

Mae'r meini prawf newydd ar gyfer rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yn ei gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau AGA sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn ymwybodol o anghenion myfyrwyr ADY a'u bod yn cael eu paratoi'n ddigonol i'w diwallu. Mae hyn yn berthnasol i bob athro dan hyfforddiant, ni waeth pa leoliad y mae'n paratoi i addysgu ynddo.

Mae ysgolion arbennig eisoes yn rhan o lawer o Bartneriaethau AGA ac yn darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i athrawon dan hyfforddiant os bydd y myfyrwyr hynny yn dewis ymgymryd â rhan o'u hymarfer clinigol yn y lleoliadau hynny. Rydym yn gweithio gydag ysgolion arbennig a phartneriaid AGA i archwilio'r materion a'r cyfleoedd i sicrhau bod ysgolion arbennig yn chwarae mwy o ran mewn AGA.

## 23. Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol – Darpariaeth

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun hirdymor yn ei le i sicrhau digonolrwydd lleoliadau darpariaeth arbenigol i ddiwallu anghenion y garfan gynyddol o ddysgwyr y nodwyd bod ganddyn nhw anghenion cymhleth.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth addysg addas i blant a phobl ifanc yn eu hardal, gan gynnwys y rhai ag ADY. O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, a threfniadau eu hysgolion a gynhelir, yn barhaus. Mae'r gwaith adolygu hwn yn rhan allweddol o brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol lleol ac mae'n galluogi awdurdodau lleol i asesu anghenion presennol ac anghenion tebygol yn y dyfodol a sicrhau darpariaeth a gwasanaethau digonol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag arweinwyr Gweithredu Cenedlaethol yr awdurdodau lleol er mwyn helpu i rannu'r hyn a ddysgir. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau i gynllunio ar gyfer anghenion dysgwyr ag anghenion cymhleth a nodwyd a diwallu'r anghenion hynny.

Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar ei hail gam ac mae wedi chwarae rôl bwysig i wella'r seilwaith addysg ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion arbennig newydd a darpariaeth arbenigol seiliedig ar adnoddau mewn rhai ardaloedd. Caiff y Rhaglen hon ei rhoi ar waith ar y cyd â phartneriaid cyflawni mewn awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Gan mai awdurdodau lleol sy'n gwybod orau beth sydd ei angen yn eu hardal, nhw sy'n pennu'r blaenoriaethau buddsoddi a chyflymder cyflwyno'r prosiectau hynny. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, cynyddodd cyfradd ariannu Llywodraeth Cymru o 65% i 75% o gyfanswm costau prosiect.

O fis Ebrill 2024, bydd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn newid i raglen fuddsoddi dreigl. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach gyflwyno cynllun buddsoddi 9 mlynedd erbyn 31 Mawrth 2024. Bydd y cynlluniau hyn yn ddibynnol ar gymeradwyaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Caiff y cynlluniau buddsoddi eu hadolygu bob 3 blynedd.

Yn ogystal â'r rhaglen hon, roeddem wedi sicrhau bod £20 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gael yn 2022-2023 i awdurdodau lleol er mwyn helpu i wella neu greu manau a chyfleusterau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cael ei addysgu mewn ystafelloedd dosbarth a manau sydd â'r technolegau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arno.

O dan y Ddeddf ADY, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol. Bydd y rôl uniongyrchol hon yn galluogi awdurdodau lleol i weithio gyda sefydliadau addysg bellach lleol i ddatblygu darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth.

## **24. Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol – Hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgolion**

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gofynion hyfforddi gorfodol ar gyfer llywodraethwyr ysgol a diwygio'r canllawiau, er mwyn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig, materion cysylltiedig fel gwaharddiadau a chyfyngu ar yr amserlen, a gofynion y cwricwlwm newydd.

Byddwn yn adolygu'r gofynion hyfforddi gorfodol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion a chanllawiau a deddfwriaeth gysylltiedig er mwyn ystyried a ddylid eu diwygio.

Hefyd, byddwn yn annog awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r meysydd allweddol hyn mewn hyfforddiant i lywodraethwyr.

Mae awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod llywodraethwyr yn cael hyfforddiant priodol, eisoes yn darparu cyrsiau ac adnoddau gwych ar anghenion dysgu ychwanegol, gwaharddiadau ac amserlenni cyfyngedig, a'r cwricwlwm newydd.

Er mwyn newid 'Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr yng Nghymru: Canllawiau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir', bydd yn rhaid diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 a bydd yn rhaid blaenoriaethu hyn yn erbyn gweddill rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.



## 25. Cefnogaeth i ddysgwyr ag anabledd a phlant ag anghenion ychwanegol – Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth

Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen gyda'r gwaith a gynlluniwyd o ran y Rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth i sicrhau dull gweithredu cyson, Cymru-gyfan o ymdrin â diagnosis meddygol preifat, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau gweithredu a fframwaith ar gyfer clinigwyr.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu teuluoedd a gwasanaethau mewn perthynas ag asesiadau diagnostig preifat neu asesiadau nas cynhaliwyd gan y GIG.

Fel rhan o'r Rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth, cytunwyd eisoes y dylid datblygu canllawiau gweithredol cenedlaethol a fframwaith i glinigwyr a'u rhoi ar waith.

Rydym eisoes wedi trafod asesiadau preifat yn fanwl â chynrychiolwyr o'n Grŵp Cynghori Clinigol er mwyn deall ymarfer presennol a'r rhwystrau.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yng Ngholeg Brenhinol y Seiciatryddion er mwyn amlinellu cynnig i ddatblygu canllawiau gweithredol cenedlaethol a fframwaith i glinigwyr. Bydd y canllawiau gweithredol a'r fframwaith yn ymdrin â nifer o feysydd cymhleth, gan gynnwys llwybrau diagnostig ac asesiadau preifat.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â chydweithwyr polisi yn Lloegr a'r GIG yn Lloegr, sydd eisoes wedi llunio canllawiau tebyg.

Wrth inni weithio i ddatblygu'r canllawiau gweithredol a'r fframwaith, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r Rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth mewn perthynas â diagnosisu meddygol preifat.

Yn ddiweddar, mae ein Grŵp Llywio Niwroddatblygiadol Plant wedi adolygu protocol sy'n bodoli eisoes ynglŷn â chraffu ar asesiadau preifat neu asesiadau nas cynhaliwyd gan y GIG. Cafodd y gwaith hwn ei gwblhau'n wreiddiol gan Ffrwd Gwaith Niwroddatblygiadol Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc. Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi ymrwmo i ddilyn y protocol hwn.

Byddwn yn cydweithio â Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg, Arweinwyr Strategol Niwroddatblygiadol Plant a staff addysg allweddol i wella'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau, nodi rhwystrau presennol i lwybrau atgyfeirio, nodi a chytuno ar arferion da a gaiff eu llunio ar raddfa model cenedlaethol. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn ymdrin ag asesiadau preifat.

## 26. Gwaharddiadau o'r Ysgol – Canllawiau Statudol

Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau eu bwriad i ddiwygio'r canllawiau statudol ar waharddiadau yn 2023/24, gan gryfhau'r canllawiau i grwpiau penodol yr effeithir yn anghymesur arnyn nhw gan waharddiadau a sancsiynau eraill, gan gynnwys plant

iau, y rhai â nodweddion gwarchoddedig, y rhai ag ADY a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae canllawiau 'Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion' yn cael eu diweddarau mewn dau gam.

Caiff diwygiadau'r cam cyntaf eu cyhoeddi yn ystod tymor yr hydref. Mae'r canllawiau wedi cael eu cryfhau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai sy'n agored i niwed.

Caiff y canllawiau eu cryfhau ymhellach i ystyried barn rhanddeiliaid a chanfyddiadau gwaith ymchwil a gomisiynwyd ar ddulliau gweithredu a all osgoi gwaharddiadau. Caiff ymgynghoriad llawn ei gynnal ar y canllawiau.

## **27. Gwaharddiadau o'r Ysgol – Adolygu canllawiau**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ar yr adolygiad cynhwysfawr maen nhw'n bwriadu ei gynnal o'r holl ganllawiau sy'n ymwneud â phresenoldeb.

Ar 7 Tachwedd, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg gyhoeddiad 'Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi' – canllawiau i helpu ysgolion i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr.

Ar yr un pryd, amlinellodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg gynlluniau i gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar ymddygiad a gwaharddiadau.

## **28. Addysgu Gartref**

Dylai Llywodraeth Cymru greu cyfleoedd rheolaidd yn ystod 2023/24 i barhau i ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu gartref wrth i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith.

Rydym yn croesawu'r argymhelliad hwn ac yn cytuno bod cyfleoedd i drafod mwy â'r gymuned addysgu yn y cartref a hynny'n fwy rheolaidd yn bwysig, yn enwedig wrth i'r canllawiau statudol gael eu rhoi ar waith. Yn dilyn y sesiynau ymgysylltu ag addysgwyr cartref a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023, rydym yn ystyried sut y gallwn hwyluso rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu gartref. Bydd hyn yn cynnwys mwy o waith ymgysylltu â swyddfa'r Comisiynydd Plant, er mwyn sicrhau bod barn a hawliau plant yn cael eu clywed a'u cynnwys ym mhob polisi sy'n ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref.

## **29. Gwasanaethau ieuentid**

Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen â'r bwriad i gynnal adolygiad o'r cyllid ar gyfer gwaith ieuentid yn ystod y tymor Senedd hwn, a chwblhau'r gwaith hwnnw, er mwyn sicrhau bod modd i wasanaethau gwaith ieuentid fod ar sylfaen gynaliadwy, i ddiogelu'r gwasanaethau hanfodol hyn yn y tymor hwy.

Bydd yr adolygiad o ariannu gwaith ieuentid, a ddechreuodd yn ystod hydref 2022, yn casglu tystiolaeth gan wasanaethau ieuentid awdurdodau lleol a sefydliadau yn y

sector gwirfoddol, er mwyn nodi'r arian sydd ar gael ar gyfer gwaith ieuenctid, sut y caiff yr arian hwnnw ei wario, a'r prosesau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer yr arian hwnnw.

Daeth cam cyntaf yr adolygiad, a oedd yn canolbwyntio ar ardaloedd pedwar awdurdod lleol, i ben ym mis Medi 2023. Byddwn nawr yn ymestyn yr adolygiad i gasglu tystiolaeth o bob rhan o Gymru. Disgwylir i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau yn ystod haf 2024, a chaiff ei argymhellion eu bwydo i mewn i'n gwaith parhaus i gryfhau'r model cyflawni ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

### **30. Addysg mewn Lleoliadau Gofal Iechyd**

Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r canllawiau EOTAS a'r fframwaith ar gyfer gweithredu, er mwyn sicrhau bod cynnig addysg amser llawn yn cael ei gynnal ar gyfer y rhai sy'n derbyn triniaeth fel cleifion mewnol, pryd bynnag mae hynny'n briodol.

Mae hawl gan bob plentyn yng Nghymru i gael addysg lawn, ni waeth beth fo'i amgylchiadau.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi canllawiau 'Atgyfeirio a Chomisiynu Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)' er mwyn helpu awdurdodau lleol i gynnig darpariaeth EOTAS o ansawdd sy'n diwallu anghenion addysg a llesiant plant na allant fynd i'r ysgol am ryw reswm, gan gynnwys plant na allant fynd i'r ysgol am eu bod yn gleifion mewnol yn yr ysbyty.

Bydd y canllawiau yn amlinellu ein disgwyladau y dylai pob disgybl EOTAS gael addysg amser llawn, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle na fyddai hynny er budd pennaf y disgybl.